


Nodiadau Athrawon Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb



PWNC

Erledigaeth a llofruddiaeth yn ystod y rhyfel

Pwy sy'n gyfrifol am yr Holocaust?

GRŴP OEDRAN

Blynyddoedd 7-11 (12-16 oed)

Camau Cynnydd 4 a 5

HYD

1 AWR

MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfrathrebu

DISGRIFIAD

Mae'r gweithgaredd hon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ystyried mater cymhleth cyfrifoldeb yng nghyd-destun meddiannaeth y Natsiaid o Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bydd myfyrwyr yn archwilio tystiolaeth fideo Ellen Kerry Davis, ffoadur Kindertransport, yn ogystal â mapiau ac adnoddau eraill yn ymwneud â digwyddiadau hanesyddol allweddol (yn arbennig, saethu torfol yr *Einsatzgruppen*) ac yn ystyried sut y gwnaeth gweithredoedd pobl gyffredin lywio digwyddiadau'r Holocaust.

Trwy archwilio enghreifftiau o gyflawni gweithredol, cydweithio, a chymhlethdod, mae'r gweithgaredd yn herio'r myth mai nifer cymharol fach o Natsiaid eithafol oedd yn gyfrifol am yr Holocaust yn unig. Er enghraifft, mae dadansoddiad o fapiau yn galluogi myfyrwyr i ddeall cymhlethdod pobl nad oeddent yn Almaenwyr ledled Ewrop mewn gwledydd oedd wedi ffurfio cynghrair â'r Almaen Natsiaidd neu'n wedi cael eu meddiannu ganddi. Mae'r gweithgaredd hefyd yn annog myfyrwyr i ystyried y cyd-destun hanesyddol a'r penblethau posibl yr oedd unigolion yn eu hwynebu yn ystod yr Holocaust, gan ganiatáu dealltwriaeth fwy cymhleth o'r amgylchiadau, a arweiniodd at hil-laddiad Iddewon Ewrop.

Yn olaf, bydd myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i dreialon Nuremberg yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, gan ganiatáu iddynt fyfyrio ar yr amddiffyniad 'dilyn gorchmynion' a'r cwmpas ar gyfer cyfrifoldeb unigol wrth amddiffyn hawliau dynol a gwerthoedd democrataidd yn ystod y rhyfel - ac yn y gyfdeithas gyfoes.

Er mwyn i'r gweithgaredd hon gael ei deall yn iawn, dylid ei haddysgu ar ôl i fyfyrwyr astudio hanes esblygiad yr Holocaust trwy **Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Gyfreithiau Erlid neu Ddiogelu a Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.***

*Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

- Myfyrion ar y cysyniad o gyfrifoldeb.
- Deall bod cyfrifoldeb am yr Holocaust yn ymestyn yn llawer ehangach na dim ond 'Hitler a'r Natsïaid' ac ystyried rhai o rolau cyflawnwyr a chydweithredwyr ledled Ewrop (yn arbennig, heddlu lleol a'r *Einsatzgruppen*).
- Ystyried rhai o'r ffyrdd y daeth pobl gyffredin i fod yn rhan o lofruddiaeth dorfol ac archwilio ystod o gymhellion posibl dros fod yn rhan o'r hil-laddiad.
- Cael eu cyflwyno i Dreialon Nuremberg ac ystyried cyfrifoldeb milwyr a swyddogion heddlu a gyflawnodd y llofruddiaethau, gan gydnabod nad oes tystiolaeth o ddial difrifol yn erbyn y rhai a wrthododd gymryd rhan.
- Myfyrion ar effaith ddynol yr Holocaust a dysgu am y cysylltiad â Chymru trwy dystiolaeth fideo ffoadur Kindertransport.
- Myfyrion ar gyfrifoldeb yr unigolyn fel dinesydd yn y byd modern.

OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, taflunydd, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

Ystyriwch

Dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod am ystyried a thrafod y syniad o 'gyfrifoldeb' yng nghyd-destun meddiannaeth y Natsïaid o Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar y bwrdd, lluniwch fap meddwl a gofynnwch i'r dosbarth am eiriau sy'n dod i'r meddwl yn awtomatig wrth feddwl am y cysyniad cyffredinol o gyfrifoldeb. Efallai y byddwch am ofyn cwestiynau fel:

- Beth mae 'bod yn gyfrifol' am rywbeth yn ei olygu? Er enghraifft, bod yn atebol neu cael eich beio am rywbeth neu gymryd cyfrifoldeb am rywbeth.
- A oes unrhyw beth yr ydych yn gyfrifol amdano yn eich bywyd? Beth yw hwnnw?
- A oes gwahanol fathau o gyfrifoldeb (e.e., troseddol, moesol, sifil, cyflogaeth, teulu ac ati)?
- A yw cyfrifoldeb yn seiliedig ar eich gweithredoedd? Neu a all hefyd fod yn seiliedig ar ddiffyg gweithredu?



Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Ystyriwch (parhad)

Ar **daflen waith y myfyrwyr**, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu enghreifftiau o'r cwestiynau y gallent eu gofyn, neu ddarnau o wybodaeth y gallai fod eu hangen arnynt, cyn dal rhywun yn gyfrifol am ddrwgweithredu. Anogwch y myfyrwyr i ddarparu o leiaf tair enghraifft (**Tasg 1**). Gallech roi enghreifftiau o ddrwgweithredu i helpu'r myfyrwyr gyda'r ymarfer hwn, e.e., lladrad neu ymosodiad. Gallai myfyrwyr hefyd feddwl am adeg pan gawsant eu dal yn gyfrifol am rywbeth.

Y nod yma yw annog myfyrwyr i feddwl yn gyffredinol am y cyd-destun a'r cymhellion a all ddylanwadu ar benderfyniadau person. Gallai myfyrwyr gyfeirio at ystod eang o ffactorau a allai ysgogi penderfyniad penodol, er enghraifft, bwriad y drwgweithredwr, oedran, cefndir, ydyn nhw wedi cael eu cythruddo, hunanamddiffyn, pwysau teuluol, neu sefyllfa economaidd ac a oeddent yn ymwneud yn weithredol, yn anuniongyrchol neu'n oddefol yn y drwgweithred. Nid yw'r ymarfer hwn i fod i esgusodi camwedd. Yn hytrach, fe'i cynlluniwyd i helpu i ddarparu dealltwriaeth fwy cynnil o gyfrifoldeb, ystyried cyd-destun penderfyniadau, a symud i ffwrdd oddi wrth stereoteipiau gor-syml.

Casglu

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen **bywgraffiad Ellen Kerry Davis** a gwylio **fideo byr**, lle mae Ellen yn disgrifio rhai o'i phrofiadau o fod yn blentyn Iddewig yn Hoof yn Kassel, yr Almaen, yn y 1930au (**Clip 1**).

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar **daflen waith y myfyriwr (Tasg 2)**.

Anogwch y myfyrwyr i ystyried y cymhellion amrywiol a allai fod wedi dylanwadu ar ymddygiad y plant tuag at Ellen - fel gwrth-semitiaeth hirsefydlog, pwysau gan gyfoedion, a chydymffurfio â normau cymdeithasol a diwylliannol hiliol a Natsïaidd. Gall pwysau i ymostwng i awdurdod a theulu, neu ofn hefyd fod wedi dylanwadu ar ymddygiad. Fodd bynnag, ni ddylid gorbwysleisio ffactorau fel ofn a bygythiad gan swyddogion y Natsïaidd. Mae stori'r plismon a ffrind i deulu Ellen yn enghraifft o sut, i lawer o Almaenwyr, fod eu bywoliaeth a lles eu teuluoedd yn flaenoriaeth llawer pwysicach na dangos undod ag Iddewon. Mae'r dystiolaeth yn datgelu'r cymhellion cymysg, dynol a oedd ar waith yn yr Almaen yn y 1930au, a gellir dadlau eu bod yn cymhlethu unrhyw gategori diffiniol o 'dramgwyddwr' a 'gwyliwr' yn yr enghraifft hon. Beth bynnag, arweiniodd polisiau Natsïaidd, ynghyd ag ymatebion yr Almaenwyr cyffredin, at arwahanu bron yn gyfan gwbl yr Iddewon oddi wrth gymdeithas yr Almaen erbyn diwedd 1938, gan ysgogi casineb a thrais yn erbyn Iddewon neu feithrin difaterwch tuag ato.

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Casglu (parhad)

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn paruau i ddarllen a thrafod **Taflen 1**, sy'n egluro rhai materion allweddol yn ymwneud â chwrs yr Holocaust yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Dylai myfyrwyr wedyn wyllo **Clip 2** o dystiolaeth fideo gan Ellen Kerry Davis a darllen y crynodeb ar y daflen waith yn ymwneud â'r ghetto yn Riga, Latfia.

Yna, gan weithio mewn paruau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar daflen waith y myfyrwyr (**Tasg 3**).

O'r ffynonellau yn Nhasg 3, anogwch y myfyrwyr i ystyried y canlynol:

- Roedd yr ystod o ymddygiadau a gweithredoedd angenrheidiol i gynnal yr Holocaust yn amrywiol ac yn helaeth. Nid dim ond ar ei ben ei hun y digwyddodd hil-laddiad digynsail o'r fath ond roedd angen cyfranogiad gweithredol cannoedd o filoedd o bobl yn yr Almaen ac ar draws Ewrop a oedd yn cael ei rheoli gan yr Axis.
- Roedd gan weithredoedd a oedd yn ymddangos yn 'ddiniwed', dyletswyddau proffesiynol, a gweithredoedd eraill a oedd yn ymddangos yn anamlwg ganlyniadau hyd yn oed os oedd y cyfranogwyr 'dim ond yn gwneud eu gwaith' neu 'dim ond yn gofalu am eu busnes eu hunain'.
- Roedd y rhain yn cynnwys gweision/gweithwyr sifil oedd yn cadw ffeiliau dogfennau adnabod a oedd yn cofrestru 'hil' Iddewig person a'r rhai a oedd yn prosesu eiddo a atafaelwyd gan Iddewon, gan gynnwys cartrefi ac eiddo a adawyd ar ôl yn dilyn eu 'hadsefydlu' i diriogaethau a feddiannwyd. Roedd hefyd yn cynnwys gweithwyr rheilffyrdd neu weithwyr trafndiaeth eraill, a rheolwyr neu rai oedd yn cymryd rhan yn y crynhoi ac alltudio.
- Roedd yr Holocaust yn gyfres o ddigwyddiadau – proses dros gyfnod hir o amser – yn hytrach na digwyddiad digymell neu anochel. Cafodd Iddewon eu dad-ddyneiddio, eu hamddifadu o hawliau, daethant yn destun trais a chawsant eu hynysu'n gymdeithasol ac yn gorfforol oddi wrth weddill y boblogaeth. Roedd llawer o bobl yn oddefol neu'n ddifater ynghylch y broses hon, ymhell cyn lladdiadau torfol yr 'Ateb Terfynol'.
- Yn aml, cymhellion dynol iawn (e.e., ofn, pwysau gan gyfoedion, neu drachwant) wnaeth arwain pobl i weithredu fel y gwnaethant. Mae'n bosibl bod y cymhellion hyn wedi bod yn gymysg, gydag emosiynau neu flaenoriaethau'n gwrthdaro dros amser, dewisiadau anfoddog, yn gysylltiedig â hunanymwadiad a thwyll. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig peidio â gorsymleiddio gwahanol rolau'r cyflawnwyr, y gwylywyr, neu'r cydweithredwyr na defnyddio gwawdluniau o 'dda' a 'drwg' gan na fydd hyn yn rhoi esboniad digonol am yr Holocaust.

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Casglu (parhad)

- Er bod y llinellau rhwng rolau fel ‘cyflawnwr’ a ‘gwyliwr’ yn aml yn aneglur, roedd gan unigolion gyfrifoldeb am eu gweithredoedd, eu penderfyniadau a'u hesgeulustod eu hunain. Gallwn dybio y byddai cwrs yr Holocaust wedi bod yn dra gwahanol pe bai mwy o bobl gyffredin wedi herio'r grymoedd a oedd yn bodoli ar y pryd ac wedi parchu cydraddoldeb sylfaenol pob bod dynol.

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau i ddarllen a thrafod **Taflen 2**, sy'n rhoi cyflwyniad byr i dreialon rhai o gyflawnwyr troseddau Natsiaidd ar ôl y rhyfel.

Yna, gan weithio mewn parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar daflen waith y myfyrwyr (**Tasg 4**).

O'r ffynonellau yn Nhasg 4, anogwch y myfyrwyr i ystyried y canlynol:

- Gwrthododd y barnwyr yn Nuremberg yr amddiffyniad ‘dilyn gorchmynion’. Dywedasant pan fydd unigolyn yn dilyn gorchmyn sy'n anghyfreithlon o dan gyfraith ryngwladol, ei fod yn gyfrifol am y dewis hwnnw, ac eithrio o dan rai amgylchiadau, er enghraifft, pe bai person yn ufuddhau i orchymyn anghyfreithlon i osgoi niwed corfforol, artaith, neu farwolaeth.
- Mae haneswyr yn cytuno na wnaeth y Natsiaid orfodi unigolion i ladd sifiliaid. Er enghraifft, mae'r dyfyniadau o'r adroddiad achos yn **Nhaflen 2** yn rhoi tystiolaeth nad oedd aelodau o'r *Einsatzgruppen* wedi'u bygwth â niwed corfforol pe na baent yn llofruddio eu dioddefwyr. Roedd y rhai a wrthododd gymryd rhan yn cael aseiniadau eraill neu'n cael eu trosglwyddo.
- Wrth gwrs, nod y treialon oedd darparu rhyw fath o gyfiawnder i'w ddiodefwyr. Fodd bynnag, ni chafodd y rhan fwyaf o'r unigolion a gyflawnodd erchyllterau dinistriol yr Holocaust eu dwyn o flaen eu gwell.
- Roedd llywodraethau'r Cynghreiriaid hefyd yn bwriadu defnyddio'r treialon i addysgu sifiliaid yr Almaen am wir faint yr erchyllterau Natsiaidd ac argyhoeddi dinasyddion yr Almaen o'u cyfrifoldeb ar y cyd am droseddau eu llywodraeth. Roedd yr amcan olaf hwn yn hollbwysig i gynllun y Cynghreiriaid i ddwyn anfri ar Natsiaeth a ‘dadnatsieiddio’ yr Almaen.
- Fe wnaeth y treialon hefyd ddarparu dogfennaeth ddiamheuol am droseddau'r Natsiaid. Yn ystod y treialon, cyflwynodd erlynwyr y Cynghreiriaid filoedd o ddogfennau Almaenig yn profi bod y gyfundrefn Natsiaidd wedi cyflawni erledigaeth systematig a dinistr y bobl Iddewig. Mae'r dystiolaeth hon (gan gynnwys ffotograffau, ffilm a thystiolaeth llygad-dystion) yn parhau i fod yn wrthbrawf parhaol i'r rhai sy'n ceisio gwadu'r Holocaust.

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Casglu (parhad)

- Gosododd treialon cyflawnwyr troseddau Natsiaidd gynseiliau cyfreithiol a helpodd i ddatblygu egwyddorion cyfraith ryngwladol - yn fwyaf nodedig y gellir dal unigolion yn droseddol gyfrifol nid yn unig am gyflawni troseddau rhyfel, troseddau yn erbyn dynoliaeth a hil-laddiad ond hefyd am gynorthwyo a hwyluso comisiynu troseddau o'r fath. Nod hyn yn ei dro oedd amddiffyn heddwch a diogelwch yr holl ddynoliaeth.

Llunio

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu erthygl papur newydd yn adrodd ar ganlyniad achos Otto Ohlendorf (**Tasg 5**). Anogwch y myfyrwyr i gynnwys eu myfyrdodau ar y canlynol:

- A oedd y canlyniad hwn yn cynrychioli cyfiawnder i'r rhai a lofruddiwyd gan yr *Einsatzgruppe D*.
- Cyfrifoldeb moesol unigol a chyfunol eraill fu'n ymwneud (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) â throseddau'r Holocaust – gan gynnwys tystion goddefol neu ddifater.
- Sut y gall cymdeithasau ac unigolion gryfhau'r parodrwydd i sefyll dros eraill a diogelu hawliau dynol sylfaenol (e.e., trwy gymryd rhan mewn prosesau a sefydliadau democrataidd).

Cyfathrebu

Gofynnwch i fyfyrwyr ddarllen erthygl a ysgrifennwyd gan fyfyrwr arall. Yna gofynnwch iddynt drafod y themâu a nodir yn yr erthyglau y maent wedi'u darllen ac a yw'r rhain yr un fath neu'n wahanol i'r rhai yn eu herthygl eu hunain.

Atodiadau

1. Taflen 1: Materion yn ymwneud â chwrs yr Holocaust yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
2. Taflen 2: Treialon ar ôl y Rhyfel.
3. Taflen 3: Trawsgrifiadau Video.
4. Taflen 4: Taflen Waith Myfyrwyr.

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Rhestr o Weithgareddau

- Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
- Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith.
- Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
- Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
- Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
- Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
- Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
- Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
- Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
- Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

Delwedd Clawr

Cyflafanau Einsatzgruppen yn nwyrain Ewrop, Mehefin 1941-Tachwedd 1942. Delwedd: United States Holocaust Memorial Museum.

